CANLLAWIAU

AILSEFYDLU HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

GWEITHREDU

Mae`r canllawiau hyn yn ymdrin ag ailsefydlu Hawliau Tramwy Cyhoeddus Swyddogol nad ydynt yn perthyn i'r categoriau a ddiffinnir yn y Côd Ymarfer ailsefydlu.

Nodwyd tair math o Hawl Tramwy Cyhoeddus at ddibenion ailsefydlu:-

- Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy`n croesi caeau ac sy`n agored i draffig amaethyddol yn unig.
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus nad ydynt yn agored i gerbydau.
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored i draffig achlysurol er mwyn mynediad.

MATHAU CYFATEBOL O AILSEFYDLU

- Mae deunyddiau ail-lenwi sy'n cydymffurfio â'r mathau o ddeunyddiau yn Nosbarthiadau A i D yn dderbyniol. Bydd ailsefydlu gorffeniad yr arwyneb a dyfnder y pridd uchaf yn amodol ar gytundeb y Tirfeddiannwr.
- Deunyddiau ail-lenwi sy'n cydymffurfio â dosbarthiadau deunyddiau A i D, ddim llai na 50mm o'r arwyneb. Bydd y 150mm sy'n weddill, yn ddeunydd hyd at safon dosbarth A, GSB, a a dylai'r arwyneb fod yn gydnaws â'r ardal o amgylch.
- Deunyddiau ail-lenwi sy'n cydymffurfio â dosbarthiadau deunyddiau A i D ddim llai na 500mm o'r arwyneb. Bydd y 500mm sy'n weddill, yn ddeunydd hyd at safon dosbarth A, GSB, a dylai'r arwyneb fod yn gydnaws â'r ardal o amgylch.

Os oedd yr arwyneb gwreiddiol yn un rhwymedig, dylid adeiladu'r arwyneb gan ddefnyddio deunyddiau tebyg.

Ar adeg y trosglwyddo dylai'r cyflwr fod yn unol â M2.26 y Côd Ymarfer "Manyleb ar gyfer Ailsefydlu Agoriadau mewn Priffyrdd".

LLECYNNAU GWAIR

Dylid ailsefydlu llecynnau gwair yn unol â M9 Paragraff 2 y Côd Ymarfer "Manyleb ar gyfer Ailsefydlu Agoriadau mewn Priffyrdd".

CYNNAL A CHADW HAWL TRAMWY

Oni bai y byddant yn cael eu cau o dan bwerau Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984, ni ddylai fod unrhyw rwystrau ar unrhyw Hawl Tramwy neu dylid cynnal llwybr arall yn ôl yr angen nes bo'r gwaith wedi ei orffen. Dylid amgáu pob gwaith cloddio yn ddiogel bob amser.

DRAENIAD

Lle bydd ailsefydlu'n cael ei wneud ar dir amaethyddol, dylid gofalu na fydd y draeniad amaethyddol yn cael ei effeithio. Dylid gofalu hefyd na fydd y deunyddiau ailsefydlu'n creu draen a allai arwain at ollwng dwr i ddyfrffos heb ganiatad, neu at hel dwr yn agos at gyfarpar.

STATWS

Cymeradwywyd y Canllawiau hyn gan PAPC CYMRU yn ei gyfarfod ar Orffennaf 24ain 1996